



At Holl Staff y Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

1 Ebrill 2020

Annwyl gyfaill,

Mae'r epidemig COVID-19 (Coronafeirws) yn un o'r heriau mwyaf difrifol rydyn ni wedi'i wynebu erioed. Mae Llywodraethau ledled y byd wedi cael eu gorfodi i gymryd rhai o'r camau llymaf a welwyd gennym ar adeg heddwch er mwyn ei reoli.

Rydw i'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich gwasanaeth ac i'ch sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn eich cefnogi cant y cant.

Bydd yr argyfwng hwn yn cael effaith sylweddol ar y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd nifer ohonoch yn wynebu her uniongyrchol oherwydd nad yw'ch cyd-weithwyr yn gallu gweithio, un ai oherwydd eu bod wedi dal y feirws neu oherwydd eu bod wedi cael eu cynghori i ymneilltuo. Mae'n anorfod fod hynny'n cynyddu'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen.

Fodd bynnag, mae gan y Gwasanaeth lawer o arbenigedd mewn cynllunio ar gyfer argyfyngau a'u rheoli. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'ch rheolwyr uwch i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw.

Mae'n bosibl hefyd y bydd yr epidemig yn cyflwyno heriau penodol i'r Gwasanaeth. Mae cadw pellter cymdeithasol ac ymneilltuo yn golygu bod pobl gartref am lawer mwy o amser, gan gynyddu'r risg o danau mewn cartrefi. Mae'n bosibl y bydd cyfnod estynedig â'r ysgolion wedi'u cau yn arwain at gynnydd yn y risg mewn rhai rhannau o Gymru o danau glaswellt yn cael eu cynnau'r fwriadol. Os bydd absenoldebau helaeth ymhlith staff yn gorfodi awdurdodau lleol i gasglu gwastraff yn llai aml, mae'n bosibl y gwelwn gynnydd mewn cynnau tanau o wastraff rhydd a thanau sy'n gysylltiedig â gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon. Unwaith eto, rydym yn ymwybodol o'r holl faterion hyn ac rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus.

Wrth ymateb i argyfwng o'r maint hwn, mae gofyn hefyd i ni feddwl a gweithredu'n wahanol.

Mae gan ddiffoddwyr tân set eang ac unigryw o sgiliau, ac mae gan y cyhoedd barch haeddiannol atynt. Mae'n bosibl bod ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r sgiliau hynny i wneud

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


gwahaniaeth uniongyrchol a gwirioneddol i'r gwaith o fynd i'r afael â'r epidemig, yn enwedig drwy gynorthwyo'r GIG neu leihau'r pwysau arno. Wrth gwrs, byddai hynny ddibynnol ar warchod eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, ac ar gynnal rôl greiddiol y Gwasanaeth.

Rydw i yn ymwybodol o'r trafodaethau o fewn y Cydgyngor Cenedlaethol a'r cytundeb bras a gafwyd yno, yn enwedig o ran gyrru ambiwlansys. Os fedrwn weithredu'r cytundeb hwn, bydd yn effeithio'n bositif ar gapsiti y Gwasanaeth Ambiwllans a'i ymateb i'r cyhoedd.

Er bod angen i ni weithredu'n gyflym yn y maes hwn, rydw i eisiau gwneud hynny drwy ddeialog. Rydw i'n gobethio bydd eich uwch swyddogion a'ch cynrychiolwyr undeb yn cytuno bod y ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth yn cryfhau yn sylweddol.

Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub draddodiad maith a balch o fynd i'r afael yn gyflym, yn effeithiol ac yn anhunanol ag unrhyw fgythytiadau i iechyd a diogelwch y cyhoedd. Rhaid i ni fynd ar ofyn y traddodiad hwnnw nawr, yn fwy nac erioed o'r blaen; ac rydw i'n sicr y byddwch yn ymateb yn ôl eich arfer anrhydeddus.

Yn gywir.



**Hannah Blythyn AC/AM**

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Deputy Minister for Housing and Local Government